Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
BRIDGEND
County Borough Council

# Talu am Ofal Cartref Preswyl a Nyrsio

**April 2024**

Gofal Cymdeithasol i Oedolion – Cyfarwyddiaeth Lles



www.bridgend.gov.uk

Os ydych yn ystyried symud i gartref gofal, mae'n debyg y bydd gennych lawer o gwestiynau. Dylai'r daflen hon fod o gymorth i chi gyda'r cwestiynau hyn, ond cewch siarad â ni os oes unrhyw beth yn aneglur i chi.

## Cysylltu â ni i gael cymorth

Efallai eich bod eisiau gwneud eich trefniadau eich hun â chartref a thalu eu ffioedd eich hun. Os ydych yn gwneud hynny, gallwn ddal i roi gwybodaeth i chi a fydd o gymorth i chi benderfynu ar y cartref gorau ar eich cyfer chi.

Fel arall, cewch gysylltu â ni i gael asesiad o'ch anghenion gofal a chymorth ariannol posibl. Wedyn, bydd rheolwr gofal yn cynnal asesiad o'ch anghenion gofal er mwyn penderfynu a ydych chi'n gymwys i gael cymorth. Os ydych, bydd disgwyl i chi dalu at gost eich gofal a chynhelir asesiad ariannol er mwyn gweld faint y bydd yn rhaid i chi ei dalu. Os oes gennych asedau cyfalaf sy'n fwy na £50,000, heb gyfrif gwerth eich eiddo, bydd yn rhaid i chi dalu cost lawn eich gofal preswyl. Mae mwy o wybodaeth am yr hyn sy'n cyfrif fel cyfalaf ar gael yn nes ymlaen yn y daflen hon. Gallwn eich cynorthwyo i benderfynu pa gartref fydd yn gweddu orau i'ch anghenion gofal chi.

Os ydych yn gwneud eich trefniadau eich hun i symud i gartref gofal a bod eich cynilion yn gostwng yn is na £50,000 ar ôl peth amser, gallech wedyn ddechrau cael cymorth ariannol gennym ni. Cewch gysylltu â ni dri mis cyn y bydd eich asedau cyfalaf yn debygol o ostwng i £50,000. Os ydych yn cysylltu â ni i gael cymorth, bydd rheolwr gofal yn cynnal asesiad o'ch anghenion gofal. Os mai canlyniad hynny yw mai gofal preswyl/nyrsio yw'r gwasanaeth mwyaf priodol ar eich cyfer o hyd, gallai cymorth ariannol fod ar gael. Bydd hynny'n amodol ar gynnal asesiad ariannol llawn a bydd angen i ni ofyn i chi am fanylion am eich amgylchiadau ariannol. Efallai na fyddwn yn gallu cefnogi ffioedd llawn cartref drutach heb gael rhai cyfraniadau ychwanegol gan rywun arall - ffrind neu berthynas, er enghraifft.

## A gaf i ddewis pa gartref y byddaf yn mynd iddo?

Cewch ddewis o amrywiaeth o gartrefi sy'n cael eu rhedeg gan naill ai Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr neu gan ddarparwyr yn y sector preifat. Cewch ddewis cartref sydd y tu allan i ardal Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, os mai dyna yw'ch dymuniad.

Bydd eich rheolwr gofal yn dweud wrthych faint yr ydym yn gallu ei dalu ar gyfer y math o ofal a fydd yn bodloni eich anghenion. Pan fyddwch yn gwneud eich dewis, bydd angen i chi wybod faint o arian y mae pob cartref yn mynd i'w

godi; mae rhai cartrefi'n codi mwy nag eraill a gallai'r ffi fod yn uwch os ydych yn dewis ystafell fwy, er enghraifft. Cewch fynd i gartref drutach os oes rhywun arall, perthynas neu ffrind er enghraifft, yn fodlon talu'r costau ychwanegol. Mewn rhai amgylchiadau, cewch chi eich hun dalu'r costau ychwanegol. Gelwir hynny'n dâl cost ychwanegol. Gofynnwch am ein taflen 'Gofal Cartref Preswyl a Gofal Cartref Nyrsio - Taliadau Cost Ychwanegol'.

Mae manylion ar gael am ansawdd y gofal a ddarperir gan unrhyw gartref gofal cofrestredig trwy edrych ar adroddiadau arolygu Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC). Mae'r rhain ar gael ar wefan AGGCC yn www.cssiw.wales.gov.uk

Mae'r cyngor yn gweithredu cynllun taliadau ffioedd ar gyfer ansawdd gofal premiwm sy'n golygu cynnal asesiad o ansawdd y gwasanaethau a ddarperir gan gartref. Mae'r Tîm Diogelu ar gyfer y Gwasanaethau i Oedolion yn y cyngor yn cynnal sesiynau monitro contractau ar gyfer pob cartref gofal cofrestredig ledled y fwrdeistref, ac mae hynny'n archwilio pa mor dda y bodlonir y safonau. Mae'n rhaid i bob cartref gyflawni safon gytunedig ar gyfer derbyn y ffi taliad ansawdd bob blwyddyn. Gall eich rheolwr gofal roi gwybodaeth i chi am ba un a yw eich cartref dewisedig wedi cyflawni'r safonau premiwm ansawdd gofynnol.

## Pwy sy'n talu am ofal nyrsio?

Os ydych yn symud i gartref nyrsio, y GIG sy'n gyfrifol am dalu'r costau gofal **nyrsio** (ond nid am y costau eraill, megis llety neu ofal personol). Y costau nyrsio ar hyn o bryd yw £213.18 yr wythnos (24/25). Er y bydd hyn yn amodol ar gynnydd, nid ydym wedi cael gwybod eto beth yw'r gyfradd ar gyfer 23/24. Os ydych chi eisiau gwybod mwy am hyn, gofynnwch am y daflen 'Gofal Iechyd Parhaus y GIG ar gyfer Oedolion yng Nghymru'.

## Pa wybodaeth y bydd yn rhaid i mi ei darparu ar gyfer yr asesiad ariannol a sut y byddaf yn darparu hynny?

Bydd ein swyddog ymweld yn galw yn eich cartref i gasglu'r wybodaeth ariannol sydd ei hangen arnom ar gyfer yr asesiad ariannol. Cyn hynny, bydd y swyddog ymweld yn cysylltu â chi i gytuno ar ddyddiad ac amser cyfleus ar gyfer yr ymweliad. Mae'n rhaid i'r swyddog ymweld lenwi Ffurflen Amgylchiadau Ariannol gyda chi, ac felly, bydd angen iddo/iddi weld y ddogfennaeth ganlynol. Bydd o fudd pe byddech yn gallu casglu'r wybodaeth hon at ei gilydd yn barod ar gyfer yr ymweliad -

- Hysbysiad dyfarnu oddi wrth Yr Adran Gwaith a Phensiynau yn cadarnhau pa fudd-dal yr ydych yn ei dderbyn, er enghraifft, Pensiwn Ymddeol, Lwfans Gweini, a sut y cyfrifir eich budd-dal. Mae hyn yn arbennig o bwysig os ydych yn derbyn Credyd Pensiwn.

- Prawf o unrhyw incwm arall, er enghraifft, pensiynau galwedigaethol / preifat.
- Prawf o unrhyw gynilion a allai fod gennych, er enghraifft, llyfrau banc/cymdeithas adeiladu, cyfriflenni banc, cyfriflenni cyfrif cerdyn Swyddfa'r Post, sy'n dangos pedwar mis o leiaf. Bydd angen i'r cyfriflenni banc gwreiddiol, cyfredol ar gyfer y cyfnod o bedwar mis cyn i chi symud i'r cartref gofal. Os nad yw'r rhain ar gael gennych, bydd angen i chi gysylltu â'ch banc i drefnu i gopïau gael eu hanfon atoch, a hynny cyn ein hymweliad yn ddelfrydol.

- Prawf o unrhyw fuddsoddiadau a allai fod gennych, er enghraifft, cyfranddaliadau, Bondiau Premiwm, bondiau buddsoddi. Os oes gennych fond buddsoddi, bydd angen i ni hefyd weld yr adroddiad buddsoddi.

- Os ydych yn berchen ar eiddo:
  - prawf o unrhyw forgeisi neu fenthyciadau cyfredol sydd wedi eu gosod yn erbyn gwerth yr eiddo
  - prawf o unrhyw ryddhad ecwiti
  - copi o fanylion yr asiant tai os yw eich eiddo ar werth ar hyn o bryd.

- Os ydych yn byw mewn eiddo a rentir a chithau'n mynd i gartref gofal am dymor byr neu dros dro, prawf o'r rhent yr ydych yn ei dalu.

- Os ydych wedi rhoi swm mawr o arian i rywun arall yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, prawf o darddiad yr arian, a pha bryd a faint oedd hynny (er enghraifft, copi o gyfriflen banc). Byddwn hefyd yn gofyn i chi egluro'r rheswm dros hynny.

- Pan fo rhywun yn gweithredu ar eich rhan mewn swyddogaeth gyfreithiol, megis Dirprwy neu Dwrnai, bydd angen i ni weld prawf o hynny.

Mae llawer o bobl o'r farn ei bod o gymorth cael perthynas neu gyfaill gyda hwy yn ystod yr ymweliad.

**Anfonwch y ffurflen a gwybodaeth ychwanegol yn ôl atom o fewn 10 diwrnodau gwaith.** Dyddiau gwaith yw dydd Llun i ddydd Gwener ac eithrio Gwyliau Banc.

O ddydd Llun i ddydd Gwener, ac eithrio Gwyliau Banc, yw diwrnodau gwaith. Mae angen i chi wneud yn siŵr eich bod yn ateb yr holl gwestiynau perthnasol a darparu'r holl brawf sydd ei angen arnom. Os nad atebir yr holl gwestiynau perthnasol ar y ffurflen, neu os na ddarperir prawf, bydd hynny'n achosi oedi o ran yr asesiad ariannol. Ni fyddwn ychwaith yn gallu ysgrifennu atoch i ddweud wrthych faint y bydd yn rhaid i chi ei dalu. Yn ogystal, os na ddychwelir yr holl wybodaeth o fewn 10 diwrnod gwaith, gallem ofyn i chi dalu cost lawn eich gofal. Os oes angen mwy o amser arnoch i ddarparu'r wybodaeth, cewch gyflwyno cais am estyniad amser. Byddai angen i chi roi eich rhesymau i ni, er mwyn i ni allu ystyried eich cais.

## A gaiff rhywun arall weithredu ar fy rhan?

Caiff, cewch ofyn i rywun arall weithredu ar eich rhan. Byddai angen i chi:
- Roi ei enw/henw a chyfeiriad i ni
- Dweud wrthym pa un a yw'n perthyn i chi

Os yw'r unigolyn yn gweithredu ar eich rhan fel eich Dirprwy neu Dwrnai, bydd angen i'r swyddog ymweld hefyd gael golwg ar y gwreiddiol neu ar gopi ardystiedig o'r atwrneiaeth barhaus, neu'r atwrneiaeth arhosol gofrestredig, neu gopi ardystiedig o'r gorchymyn llys priodol. Bydd angen i'r swyddog ymweld hefyd dynnu llun o'r dogfennau hyn.

Os oes rhywun arall, wedyn, yn dweud wrthym eu bod yn gweithredu ar eich rhan, byddai angen i ni gysylltu â chi ynghylch hynny.

Ceir gwasanaethau eirioli yn yr ardal a allai ddarparu'r math hwn o wasanaeth. Os oes eisiau mwy o wybodaeth arnoch am y rhain, cysylltwch â'n Canolfan Rheoli Atgyfeiriadau Integredig trwy ffonio 01656 642279 (cewch ddefnyddio teipsiarad), neu ewch i contactassessmentreviewteam@bridgend.gov.uk .

## Sut y penderfynir ar fy nghyfraniad?

Gosodir y rheoliadau ar gyfer penderfynu faint yr ydych yn ei dalu gan Lywodraeth Cymru, dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Dim ond golwg gyffredinol y gall y daflen hon ei roi i chi, ac felly, cysylltwch â ni os oes eisiau mwy o wybodaeth arnoch. Gallwch hefyd edrych ar y canllawiau ar godi ffioedd ac asesiadau ariannol a gynhwysir yn Rhan 4 a 5 y Cod Ymarfer ar wefan Llywodraeth Cymru-
http://www.ccwales.org.uk/codes-of-practice-and-statutory-guidance/

Os nad ydych yn cysylltu'n uniongyrchol â ni, bydd eich rheolwr gofal yn gofyn

i'n swyddog cyllid ymweld i ddod i'ch gweld er mwyn casglu manylion am eich materion ariannol. Bydd y swyddog ymweld hefyd yn gallu rhoi gwybod i chi am fudd-daliadau y gallech fod yn gymwys i'w derbyn. Bydd y swm yr ydych yn ei gyfrannu yn dibynnu ar faint o arian yr ydych yn ei dderbyn bob wythnos (eich incwm yr ydym yn galw hynny) a faint o arian sydd gennych wedi ei gynilo ac asedau eraill megis eiddo (eich cyfalaf yr ydym yn galw hynny). Os darperir eich gofal yn rhan o gynllun ôl-ofal dan Adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, ni fydd yn rhaid i chi dalu.

## Incwm

Ystyrir y rhan fwyaf o fathau o incwm wrth i ni benderfynu ar faint yr ydych yn gorfod ei dalu. Mae hynny'n cynnwys y rhan fwyaf o fudd-daliadau'r wladwriaeth, megis pensiwn ymddeol, yn ogystal ag unrhyw bensiwn cwmni neu bensiwn personol yr ydych yn ei dderbyn. Gall eich swyddog ymweld roi gwybod i chi pa incwm a fydd yn cael ei gynnwys.

## Cyfalaf

Eich cynilion, buddsoddiadau a gwerth unrhyw eiddo yr ydych yn berchen arno yw hyn. Er enghraifft, mae'n cynnwys arian mewn cyfrifon banc neu gymdeithas adeiladu, tystysgrifau cynilion, a stociau a chyfranddaliadau. Efallai na fydd gwerth bondiau buddsoddi sy'n cynnwys yswiriant bywyd a rhai cronfeydd ymddiriedolaeth yn cael eu cynnwys pan fyddwn yn penderfynu ar faint o gyfalaf sydd gennych. Fodd bynnag, gellid cynnwys unrhyw incwm a enillir ohonynt. Mae rheolau llym ynghylch hynny, ac felly, byddai angen i chi drafod eich amgylchiadau gyda ni. Diystyrir unrhyw gyfalaf hyd at werth £50,000 sydd gennych. Os oes gennych gyfalaf sy'n werth mwy na £50,000, gofynnir i chi dalu cost lawn eich gofal hyd y bydd eich cyfalaf yn gostwng i'r swm hwnnw.

## Isafswm Incwm (a elwid gynt yn Lwfans Treuliau Personol)

Pan ein bod yn penderfynu ar faint y byddwch yn gorfod ei dalu, rydym yn gwneud yn siŵr bod gennych bob amser swm penodol o arian yn weddill bob wythnos ar gyfer treuliau personol megis pethau ymolchi, trin traed a thrin gwallt. Gelwir hynny'n eich isafswm incwm ac mae'n £39.50 yr wythnos o fis Ebrill 2023 ymlaen. Os oes rhywun arall yn tynnu arian eich budd-daliadau allan, cyfrifoldeb yr unigolyn hwnnw yw sicrhau eich bod yn derbyn yr isafswm incwm neu y gwneir pryniannau ar eich rhan. Os, oherwydd eich amgylchiadau ariannol, y mae'n angenrheidiol i chi dalu cost lawn eich gofal

preswyl, nid yw'r isafswm incwm hwnnw'n berthnasol mwyach.  Yn syml, byddech yn defnyddio arian eich cyfalaf ar gyfer eich anghenion gwario rhesymol eich hun.

## A oes yn rhaid i mi roi manylion am fy materion ariannol?

Gan fod rhai mathau o gyfalaf yn cael eu trin yn wahanol i'w gilydd, rydym yn eich cynghori'n gryf i gael asesiad ariannol llawn.  Os penderfynwch beidio â gwneud hynny, codir cost lawn eich gofal arnoch.  Byddwn yn gofyn i chi lofnodi ffurflen i ddangos eich bod yn cytuno i dalu'r gost lawn.

## Beth os wyf yn berchen ar eiddo?

Am y 12 wythnos gyntaf o arhosiad parhaol, bydd y swm y bydd yn rhaid i chi ei dalu wedi ei seilio ar eich incwm a'ch cyfalaf, ac eithrio gwerth eich eiddo. Ar ôl y 12 wythnos gyntaf o arhosiad parhaol, cynhwysir gwerth unrhyw eiddo yr ydych yn berchen arno. Efallai y bydd angen i ni gael prisiad ffurfiol.  Mae'n debyg fod y rhan fwyaf o eiddo yn werth mwy na £50,000 a byddai hynny'n golygu y byddai'n rhaid i chi dalu cost lawn eich gofal.  Ni chynhwysir gwerth eich eiddo os ydych yn mynd i gartref am arhosiad tymor byr neu am arhosiad dros dro hwy.  Ni chynhwysir y gwerth ychwaith os ydych yn symud i gartref gofal yn barhaol **a** rhywun wedi bod yn byw'n barhaus yn eich eiddo ers cyn i chi fynd i gartref gofal, sef un o'r bobl ganlynol:

- Partner, partner blaenorol neu bartner sifil, ac eithrio pan ei fod/bod wedi ymddieithrio neu gael ysgariad oddi wrthych
- Unig riant, sef eich partner sydd wedi ymddieithrio neu sydd wedi cael ysgariad oddi wrthych, ac sydd â phlentyn dibynnol
- Perthynas sy'n 60 mlwydd oed neu'n hŷn neu sy'n analluog
- Plentyn sydd dan 18 mlwydd oed.

Fodd bynnag, mae'n bwysig iawn eich bod yn rhoi gwybod i ni'n syth os yw'r amgylchiadau'n newid a bod yr unigolyn yn gadael eich eiddo neu'n marw.

Gallai amgylchiadau eithriadol eraill fodoli pan fo rhywun yn byw yn yr eiddo ac efallai nad yw gwerth yr eiddo'n cael ei gynnwys yn eich asesiad ariannol, ond byddai'n rhaid i ni ystyried yr amgylchiadau'n ofalus iawn.  Os ydym yn penderfynu peidio â chynnwys gwerth yr eiddo a chithau'n cael trafferth i barhau i dalu costau eich eiddo, (megis morgais ac yswiriant adeiladau),

dylech siarad â ni ynglŷn â hynny. Byddem wedyn yn ystyried pa un a allem wneud lwfans ychwanegol ar gyfer y costau hynny yn eich asesiad ariannol.

### A fydd yn rhaid i mi werthu fy eiddo?

Pan gynhwysir ystyriaeth o werth eich eiddo ac nad oes gennych ddigon o incwm na chyfalaf arall i dalu am gost lawn eich gofal, gallech benderfynu gwerthu eich cartref er mwyn talu'r ffioedd. Rydym yn deall y gallai hynny gymryd peth amser a hefyd y gallai fod rhai pobl nad ydynt yn dymuno gwerthu eu cartref. Dan yr amgylchiadau hynny, cewch gyflwyno cais i'r Cyngor am gytundeb taliad gohiriedig. Ceir mwy o wybodaeth am hynny yn ein 'Taflen Ffeithiau y Cynllun Taliadau Gohiriedig', ac felly, mae'n bwysig eich bod yn darllen honno'n ofalus. Rydym hefyd yn awgrymu'n gryf y dylech chwilio am gyngor cyfreithiol/ariannol annibynnol cyn cyflwyno cais am gytundeb taliad gohiriedig. Os ydych yn penderfynu cyflwyno cais, a ninnau'n cytuno â hynny, byddwn yn penderfynu faint y gallwch ei dalu o'ch incwm (ac incwm rhent os ydych yn gosod eich eiddo), a byddwn yn aros am daliad ar gyfer y gweddill hyd y gwerthir yr eiddo. Byddwn yn gosod pridiant cyfreithiol ar eich eiddo, a byddech chi neu eich ystâd yn ad-dalu'r swm gohiriedig dim ond pan fyddwch yn gwerthu eich eiddo neu pan fyddwch yn gadael gofal preswyl. Os ydych yn penderfynu peidio â gwerthu eich eiddo, gallai hynny effeithio ar eich budd-daliadau. Cysylltwch â'r Adran Gwaith a Phensiynau i gael mwy o wybodaeth am hynny.

### A gaf i roi unrhyw arian neu eiddo i ffwrdd?

Nid oes dim i'ch atal rhag rhoi arian neu eiddo i ffwrdd na'i wario er eich lles eich hun. Os gwnewch chi hynny, byddai angen i ni ystyried yr amgylchiadau'n ofalus iawn er mwyn i ni fod yn fodlon nad ydych wedi gwneud hynny er mwyn osgoi talu ffioedd. Gallai trosglwyddo eich cartref neu gynilion i berthynas neu gyfaill, neu wario'n ormodol, neu fuddsoddi arian mewn modd sy'n golygu nad yw'n cael ei gynnwys yn yr asesiad ariannol, gael ei ystyried fel ffyrdd o osgoi talu ffioedd. Os ydym yn penderfynu bod hynny wedi digwydd, gallem barhau i ystyried gwerth yr arian neu eiddo yr ydych wedi ei roi i ffwrdd. Dan rai amgylchiadau, gallwn ofyn i'r unigolyn y rhoddwyd yr arian neu eiddo iddo i dalu rhywfaint o'ch costau gofal.

### Beth os wyf ond yn mynd i gartref dros dro neu am dymor byr neu os wyf yn derbyn taliad uniongyrchol ar gyfer math arall o wasanaeth seibiant?

- Os yw eich arhosiad yn un dros dro (ac yn hwy nag 8 wythnos), penderfynir ar eich cyfraniad mewn ffordd debyg i'r un a ddangosir uchod, ond os oes gennych ymrwymiadau cartref, bydd eich cyfraniad yn cael ei leihau trwy swm safonol, er mwyn cymryd y rhain i ystyriaeth.

- Os yw eich arhosiad tymor byr yn 8 wythnos neu lai, penderfynir ar eich cyfraniad mewn ffordd wahanol gan eich bod yn derbyn gofal a chymorth dibreswyl. Gofynnwch am gopi o'n 'Gwahoddiad i Ofyn am Asesiad o Fodd - Talu am Wasanaethau Gofal Cymdeithasol Dibreswyl' sy'n egluro mwy am hynny. Fodd bynnag, os bydd eich arhosiad tymor byr yn cael ei ymestyn wedyn i fwy nag 8 wythnos, o'r diwrnod cyntaf o'r nawfed wythnos, mae wedyn yn mynd yn arhosiad seibiant preswyl dros dro. Os digwydd hynny yn ystod rhan o'r ffordd trwy wythnos, byddech yn parhau i dalu'r un swm ar gyfer eich arhosiad tymor byr yn ystod yr wythnos honno, ond byddech hefyd yn gorfod talu cyfraniad at eich arhosiad seibiant preswyl dros dro.

Diystyrir gwerth eich eiddo os yw eich arhosiad mewn cartref ond yn un dros dro neu'n arhosiad byr 8 wythnos neu lai. Fe'i diystyrir hefyd os ydych yn derbyn math arall o wasanaeth seibiant. I gael mwy o wybodaeth am daliadau uniongyrchol, gofynnwch am ein taflen taliadau uniongyrchol.

## Pa bryd y byddaf yn gwybod faint y mae'n rhaid i mi ei dalu?

Cyn gynted ag y byddwn wedi cynnal yr asesiad ariannol, byddwn yn ysgrifennu atoch i gadarnhau'r swm y mae'n rhaid i chi ei dalu. Cyfeirir at hyn fel datganiad a bydd hefyd yn cynnwys y dyddiad y bydd yn rhaid i chi ddechrau talu, sef y dyddiad yr ydych yn symud i'r cartref gofal.

## Sut y byddaf yn talu fy nghyfraniad?

- Os ydych yn symud i gartref gofal preifat yn barhaol neu dros dro, (cyn belled â bod yr arhosiad dros dro am fwy nag 8 wythnos), dylech siarad â'r rheolwr ynglŷn â sut i dalu. Os byddwch yn cael arhosiad tymor byr 8 wythnos neu lai, byddwn yn anfon bil atoch. Byddwn hefyd yn parhau i anfon bil atoch os estynnir yr arhosiad byr i fwy nag 8 wythnos.

- Os ydych yn symud i gartref awdurdod lleol yn barhaol, bydd y swyddog ymweld yn trafod y trefniadau talu gyda chi. Fodd bynnag, os yw eich arhosiad yn un dros dro neu'n arhosiad tymor byr o 8 wythnos neu lai, byddwn yn anfon bil atoch.

Os ydych yn symud yn barhaol, efallai y dymunech ystyried i'ch budd-daliadau gael eu talu i'ch cyfrif banc a thalu'r cartref trwy orchymyn sefydlog. Ni ddylid gofyn i chi dalu ymlaen llaw, ond cewch wneud hynny, pe dymunech.

### Beth os nad wyf yn cytuno â'r swm y mae'n rhaid i mi ei dalu?

Cewch ofyn i ni adolygu eich tâl. Byddai'n rhaid i chi neu'r unigolyn sy'n ymdrin â'ch materion ariannol gysylltu â ni i egluro pam y mae eisiau'r adolygiad arnoch, er enghraifft, pe byddai'r tâl yn achosi caledi i chi.

### Beth y dylwn ei wneud pe byddai fy amgylchiadau ariannol yn newid?

Rhowch wybod i ni ar unwaith, gan y gallai hynny effeithio ar y swm y mae'n rhaid i chi ei dalu.

### Mwy o wybodaeth

Os oes angen mwy o wybodaeth arnoch am dalu am ofal cartref preswyl neu ofal cartref nyrsio, cysylltwch â'n swyddogion asesu ariannol fel y dangosir isod:

**Rhif ffôn:** 01656 642071 neu 01656 642683
**E-bost:** psresidentialteam@bridgend.gov.uk

Os oes angen mwy o wybodaeth arnoch am asesiad o anghenion gofal, cysylltwch â'r Ganolfan Rheoli Atgyfeiriadau Integredig fel y dangosir isod:

## Gofal Cymdeithasol i Oedolion

**Y Gyfarwyddiaeth Lles**

**Y Swyddfeydd Dinesig**

**Pen-y-bont ar Ogwr**

**CF31 4WB**

**Rhif ffôn:** 01656 642279 (cewch ddefnyddio teipsiarad)

**Minicom:** 01656 642383

**Ffacs:** 01656 642300

**Negeseuon testun SMS:** ABC +44 797 697 2020

**E-bost:** contactassessmentreviewteam@bridgend.gov.uk

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg. Rhowch wybod i ni os mai'r Gymraeg yw eich dewis iaith. We welcome correspondence in Welsh. Please let us know if your language choice is Welsh.